Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

Yr Archif Wleidyddol Gymreig

Cylchlythyr Yr Archif Wleidyddol Gymreig | Yr Hydref 2008 | Rhif 39 | ISSN 1365-9170

Papurau Peter Hain
Rhoi Cymru'n gyntaf
Papurau W. R. P. George
Darlithiau Clwb Busines Caerdydd
Dyddiadur Lloyd George
Cynhaeaf hanner canrif
Cysgu gyda'r gelyn
Papurau Lord Pontypridd
Papurau Syr J. Herbert Lewis
Dr E. L. Ellis
TUC Cymru
Papurau Gareth Vaughan Jones
The Pain and the Privilege
Cylchlythyron AWG
Derbyniadau eraill

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Papurau Peter Hain

Bu'r Archif Wleidyddol Gymreig yn hynod falch i dderbyn yn ddiweddar archif sylweddol iawn o bapurau'r Gwir Anrhydeddus Peter Hain, AS Llafur Castell Nedd.

Ganwyd Mr Hain yn Nairobi, Kenya, treuliodd ei blentyndod yn Ne Affrica a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Pretoria. Gorfodwyd ei rieni gwrth-apartheid i adael y wlad. Yn ddiweddarach enillodd raddau yng Ngholeg y Frenhines Mary, Llundain a Phrifysgol Sussex. Ac yntau'n 'Rhyddfrydwr Ifanc' yn wreiddiol, ymunodd Peter Hain â'r Blaid Lafur ym 1977 a gwasanaethodd fel swyddog ymchwil Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth o 1976 tan 1991. Safodd yn aflwyddiannus fel ymgeisydd Llafur dros etholaeth Putney ym 1983 a 1987 cyn cael ei ethol dros Gastell Nedd ym 1991 fel olynydd i Donald Coleman. Fel gweinidog yn y Swyddfa Gymreig, roedd yn un o arweinwyr yr ymgyrch dros ddatganoli yng Nghymru ym mhleidlais 1997. Yna daliodd nifer o swyddi fel gweinidog yn San Steffan cyn ei benodiad yn Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru yn 2002. Daeth yn Arweinydd y Tŷ Cyffredin yn 2003, yn Ysgrifennydd Gwladol dros Ogledd Iwerddon yn 2005 ac yn Ysgrifennydd Gwladol dros Gyflogaeth a Phensiynau yn 2007. Drwy gydol y chwe blynedd hyn parhaodd yn ogystal fel Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru.

Mae'r archif yn hynod fawr a chyflawn ac yn cynnwys papurau'r rhoddwr o ddyddiau prifysgol, deunydd yn ymdrin ag apartheid yn Ne Affrica ynghyd â rhychwant eang o faterion cartref a rhyngwladol o'r 1970au. Mae llawer o bapurau'n ymwneud â gweithgareddau'r Rhyddfrydwyr Ifanc yn y 1970au, gan gynnwys papurau cynadleddau a llawer o gyhoeddiadau printiedig.

Mae'r papurau diweddarach yn ymdrin â diwygio'r drefn bleidleisio, yr undebau llafur, ymgyrchoedd etholiadol a datblygiad y Blaid Lafur drwy gydol y 1980au. Ceir o fewn y grŵp olaf nifer o areithiau gwleidyddol pwysicaf Mr Hain. Ceir hefyd archifau'n ymwneud â'r Blaid Lafur ar ôl y flwyddyn 2000, swyddi Mr Hain o fewn y Cabinet, ynghyd â grwpiau sylweddol o dorion o'r wasg a phapurau ymchwil ar gyfer llyfrau ac erthyglau niferus y rhoddwr. Cafwyd addewid am ddogfennau pwysig eto yn y dyfodol.

Ni fydd papurau Peter Hain ar gael i'r cyhoedd am rai blynyddoedd nes iddynt gael eu didoli a'u trefnu.

Darlith Flynyddol Yr Archif Wleidyddol Gymreig

'Ambell Atgof Wleidyddol' Arglwydd Elystan-Morgan

Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, nos Wener, 7 Tachwedd 2008, 5.30pm

www.llgc.org.uk

Richard Wyn Jones, *Rhoi Cymru'n Gyntaf* (Caerdydd, 2007)

Ceir o fewn y gyfrol sylweddol hon astudiaeth wir arloesol o ddatblygiad athroniaeth wleidyddol Plaid Cymru ers ei sefydlu ym 1925 tan sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'n amlwg i'r awdur dreulio blynyddoedd lawer yn darllen ac yn ymchwilio'n helaeth.

Rhennir y testun hynod ddarllenadwy yn ddwy ran annibynnol: cyflwyniad cyffredinol i wahanol ddadansoddiadau ynghylch cenedlaetholdeb; ac yna astudiaeth fanwl o syniadau gwleidyddol y pedwar arweinydd amlycaf yn hanes y Blaid: Saunders Lewis, Gwynfor Evans, Dafydd Wigley a Dafydd Elis-Thomas. Ym marn yr awdur, canlyniad erchyll y bleidlais ar ddatganoli, 1 Mawrth 1979, oedd y trobwynt pwysicaf yn natblygiad y blaid. Ymhlith y themâu pwysig eraill a drafodir o fewn y gyfrol mae llosgi'r ysgol fomio ym Mhenyberth ym 1936 a'r berthynas sigledig rhwng Gwynfor Evans a Saunders Lewis dros sawl degawd.



Dyddiadur Lloyd George

Llwyddodd y Llyfrgell i brynu dyddiadur poced Lloyd George ar gyfer y flwyddyn 1885 pan roedd yn dair-ar-hugain mlwydd oed. Mae'n cynnwys nifer fawr o gofnodion manwl sy'n rhoi darlun hynod diddorol o'i weithgareddau a'i ddiddordebau. Mae amryw o'r cofnodion yn cyfeirio at waith Lloyd George fel cyfreithiwr oedd newydd gychwyn yn ei swydd a'r achosion cyfreithiol a ddeuai i'w ran. Ceir nifer o gyfeiriadau at ei weithgareddau gwleidyddol, siarad yn gyhoeddus a chychwyn ei berthynas â Miss Maggie Owen, Mynydd Ednyfed Fawr, Criccieth. O fewn y dyddiadur hynod hwn ceir nifer o gyfeiriadau at aelodau eraill teulu agos Lloyd George. Ychwanegwyd y dyddiadur at Bapurau William George.

Papurau Dr W. R. P. George

Drwy garedigrwydd Mrs Greta George, Garthcelyn, Criccieth, roedd y Llyfrgell yn hapus iawn i dderbyn archif fawr o ohebiaeth a phapurau ei diweddar ŵr Dr W. R. P. George CBE (1912 – 2006), y cyfreithiwr, bardd a gwleidydd lleol adnabyddus. Ceir yn eu plith rhediadau hir o ddyddiaduron desg llawn manylion, dyddiaduron poced a llyfrau nodiadau sy'n cynnwys deunydd ar gyfer cyfrolau ac erthyglau niferus Dr George. Ceir hefyd bapurau'n adlewyrchu gweithgareddau gwleidyddol Dr George a'i gysylltiadau â Gorsedd Beirdd Ynys Prydain (gwasanaethodd fel Archdderwydd o 1989 tan 1992), yr Eisteddfod Genedlaethol a nifer o eisteddfodau lleol. Ceir drafftiau a chopïau o gerddi a phapurau cyfreithiol hefyd. Mae rha o'r papurau'n ymdrin ag aelodau o deulu Dr George, gan gynnwys ei dad William George (1865 – 1967) a'i ewythr enwog David Lloyd George (1863 – 1945).

Darlithiau Clwb Busnes Caerdydd

Drwy gydweithrediad parod Mr Jeff Drake, derbyniodd y Llyfrgell gasgliad mawr o fwy na 150 cryno ddisg o'r darlithiau misol a draddodwyd i aelodau Clwb Busnes Caerdydd gan wleidyddion a ffigyrau cyhoeddus blaenllaw yn ystod y blynyddoedd ers 1992. Maent yn cynnwys gwleidyddion Prydeinig blaenllaw fel Gordon Brown, Yr Arglwydd Crickhowell, Ron Davies, William Hague, Peter Hain, Neil Kinnock, Cecil Parkinson a'r Arglwydd Tonypandy. Maent erbyn hyn yng ngofal Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru. Gellir lawrlwytho o safle we'r clwb testun y darlithiau ers 1994 ymlaen.

Gwilym Prys Davies, *Cynhaeaf Hanner Canrif: Gwleidyddiaeth Gymreig, 1945 – 2005* (Llandysul, 2008)

Gwnaeth yr Arglwydd Prys-Davies gyfraniad sylweddol i fywyd cenedlaethol Cymru fel cyfreithiwr, gwleidydd a gweinyddwr gwlatgar. Seiliwyd ei grynodeb o hanes gwleidyddiaeth Cymru ers 1945 yn gadarn ar ei brofiadau personol a'i gyfeillgarwch â nifer o wleidyddion Llafur yng Nghymru, yn eu plith Jim Griffiths, Goronwy Roberts, Cledwyn Hughes, John Morris a Ron Davies. Dwy brif thema a olrheinir yma: y frwydr i sicrhau datganoli ar gyfer Cymru, a'r ymgais hir i sicrhau statws cyfreithiol ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Cyflwynir deunydd gwreiddiol a diddorol ar ymgyrch wydn Senedd i Gymru'r 1950au, sefydlu'r Swyddfa Gymreig ym 1964, pleidlais datganoli 1 Mawrth 1979 a'r camau a arweiniodd at greu Cynulliad Cenedlaethol ym 1999. Ond drwy gydol y gyfrol edrychir ar y digwyddiadau hyn drwy lygaid y Blaid Lafur.

Cysgu gyda'r gelyn

Yr Arglwydd Crickhowell oedd darlithydd blynyddol yr AWG yn 2006. Fel Nicholas Edwards, gwasanaethodd fel Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru rhwng 1979 a 1987 tra'n cynrychioli Sir Benfro yn y Senedd. Fel y gellid disgwyl, roedd ei ddarlith yn amddiffyniad grymus a difyr o record nifer o lywodraethau Ceidwadol yn eu perthynas â Chymru. Yn narlith flynyddol yr AWG Tachwedd 2007, edrychodd Mr David Jenkins ar rai o'r un digwyddiadau pwysig o safbwynt braidd yn wahanol. Testun ei ddarlith oedd 'Cysgu gyda'r Gelyn: yr Undebau Llafur yng Nghymru yn ystod Blynyddoedd Thatcher'.

Brodor o Gaerdydd yw David Jenkins. Enillodd radd mewn Gwleidyddiaeth ac Economeg o Brifysgol Lerpwl. Gwasanaethodd fel Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru o 1983 tan iddo gymryd ymddeoliad cynnar yn 2004. Roedd felly mewn swydd allweddol drwy'r 1980au pan brofodd Cymru gymaint o newidiadau pellgyrhaeddol, ac roedd Mr Jenkins ar flaen y gad yn y frwydr i arbed swyddi yn y diwydiant dur a'r diwydiant glo. Yn unol â'r disgwyl, daeth cynulleidfa sylweddol i'r Drwm, LlGC i wrando ar y darlithydd.

Mewn darlith ddifyr a gafaelgar, dadansoddodd Mr Jenkins effaith polisïau llywodraethau Mrs Thatcher ar y diwydiant dur a'r diwydiant glo ym Mhrydain ac ar y rhai a weithiai ynddynt, ynghyd â'r camau a gymerwyd gan aelodaeth TUC Cymru i wrthsefyll y cynigion chwyldroadol, gan gyflwyno cynigion newydd a swyddi newydd i Gymru. Talodd deyrnged i Nicholas Edwards, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, am gynorthwyo i leddfu sgileffeithiau gwaethaf Thatcheriaeth ar economi a chymdeithas Cymru.

Bu'r darlithydd hefyd yn olrhain swyddogaeth bwysig Canolfan Cydweithredol Cymru yn denu buddsoddiad mewnol i Gymru, y gefnogaeth a ddaeth i law oddi wrth y Senedd Ewropeaidd ym Mrwsel a dylanwad streic y glowyr, 1984 – 85. Talodd deyrnged hael i undod eithriadol glowyr Cymru drwy gydol y streic, 'Roedd y streic a barodd am flwyddyn gyfan wedi ennill dim byd: dim consesiynau, dim cytundeb, ac mewn ardaloedd eraill y maes glo Prydeinig roedd undeb y glowyr mewn anrhefn llwyr. Ond yma yng Nghymru bu undeb o leiaf, roedd y streic wedi parhau'n gadarn a'r glowyr wedi dal yn deyrngar i'r NUM. Roedd rhywbeth arbennig ynghylch glowyr Cymru wedi'r cyfan'.

Ym marn Mr Jenkins, roedd streic y glowyr 1984 – 85 'wedi ennill ei lle ar restr brwydrau mawr y dosbarth gweithiol yng Nghymru: streic y glowyr 1898, profiad chwarelwyr y Penrhyn o gael eu cloi allan o 1900 tan 1903; streic glowyr pyllau glo'r Cambrian, 1910 – 11, ac wrth gwrs streic glowyr de Cymru 1926 a ddilynodd fethiant y streic gyffredinol. Pob un ohonynt yn frwydr orchestol, pob un yn orchfygiad gorchestol'.

Bydd y rhai hynny a fethodd fynychu'r ddarlith yn falch o wybod y gellir darllen y testun ar wefan y Llyfrgell yn yr adran ar yr Archif Wleidyddol Gymreig.

Arglwydd Pontypridd

Llwyddodd y Llyfrgell i brynu grŵp bychan o ohebiaeth, 1894 – 1913, Syr Alfred Thomas, Bronwydd, Caerdydd, AS Rhyddfrydol Dwyrain Morgannwg o 1885 tan 1910. Thomas oedd y cyntaf a'r olaf i arddel y teitl Barwn Pontypridd. Maent yn cynnwys llythyrau oddi wrth H. H. Asquith, Syr Henry Campbell-Bannerman, Austen Chamberlain, Joseph Chamberlain, David Lloyd George a'r Arglwydd Rosebery. Eu cyfeirnod erbyn hyn yw NLW ex 2520. Mae grŵp sylweddol o ohebiaeth a phapurau'r Arglwydd Pontypridd yng ngofal Gwasanaeth Archifau Sir Forgannwg, Caerdydd

Papurau Syr John Herbert Lewis

Mae Mrs Olwen Foreman, Porthaethwy wedi ychwanegu nifer o eitemau diddorol at archif ei thad-cu Syr John Herbert Lewis (1858 – 1933), y gwleidydd Rhyddfrydol enwog. Ceir yn eu plith llythyrau oddi wrth Lewis at Lloyd George, ac oddi wrth J. Saunders Lewis at Herbert Lewis. Maent hefyd yn cynnwys atgofion Ruth, y Fonesig Lewis, a'u merch Mrs Kitty Idwal Jones.

Dr E. L. Ellis

Cyflwynodd Mrs Pamela Ellis, Rhydyfelin, Aberystwyth i'r AWG yr ohebiaeth a gasglodd ei diweddar ŵr Dr E. L. Ellis (1922 – 2008) wrth ymchwilio ar gyfer ei gofiant gorchestol i'r Dr Thomas Jones CH (1870 – 1955), Dirprwy Ysgrifennydd y Cabinet o 1916 tan 1930. Cyhoeddwyd y cofiant gan Wasg Prifysgol Cymru ym 1992. Pan yn cychwyn ar ei ymchwil, rhwng 1978 a 1982, bu Dr Ellis yn gohebu â nifer o ffigyrau cyhoeddus ag atgofion personol am TJ, yn eu plith David Astor, Ruth Evans (gweddw Ivor Leslie Evans, Prifathro Coleg Aberystwyth), A. J. Sylvester, y Fonesig (Eirene) White a Marlene Yeo. Eu cyfeirnod yw NLW ex 2563.

TUC Cymru

Yn garedig iawn cyflwynodd Mr Joe England, Y Fenni, i ofal y Llyfrgell y defnyddiau ymchwil a gasglodd tra'n llunio ei gyfrol seminal *The Wales TUC, 1974 – 2004: Devolution and Industrial Politics* (Cardiff, 2004). Maent yn cynnwys copïau o gofnodion Cyngor Cyffredinol TUC Cymru, c. 1974 – 92, gohebiaeth yn deillio o'r 1970au a'r 1980au, papurau'n ymdrin â'r economi Gymreig, ac eitemau printiedig amrywiol. Maent oll yn gymar i archifau helaeth TUC Cymru sydd eisoes yng ngofal y Llyfrgell.

Derbyniadau eraill

Ymhlith y derbyniadau eraill a ddaeth i law yn ystod y flwyddyn mae:

- Yr Anrhydeddus Elisabeth Large, Wincanton: papurau ychwanegol ei thad y Barwn Edmund-Davies o Aberpennar, y bargyfreithiwr a barnwr nodedig yr uchel lys.
- Mr D. Leslie Davies, Aberdâr: deunydd o ddiddordeb gwleidyddol lleol, gan gynnwys llyfr cofnodion, 1946 – 53, cangen Aberdâr o Blaid Cymru.
- Y diweddar Nans Jones, Caerdydd: grŵp sylweddol o ffotograffau o ddigwyddiadau amrywiol a drefnwyd gan Blaid Cymru gan gynnwys cynadleddau, ysgolion haf a phrotestiadau, llawer ohonynt o Dr Gwynfor Evans.
- Mr Patrick Hannan: llungopi o'r dyddiadur manwl a gadwyd gan y diweddar Mr Phillip Weekes rhwng 1981 a 1984 yn adlewyrchu'r tensiynau cynyddol o fewn y diwydiant glo yn ystod yr union gyfnod cyn streic y glowyr, 1984 – 85. Fe'i ychwanegwyd at Bapurau Phillip Weekes.
- Yr Arglwydd Livsey o Dalgarth: copi o'i ddarlith, 'Welsh Entrepreneurs' a draddodwyd yn y Llyfrgell Genedlaethol ar 31 Ionawr 2008 (*NLW ex 2536*).
- Mr Clive Betts: grŵp ychwanegol sylweddol o ddatganiadau i'r wasg, adroddiadau a gohebiaeth, yn ymdrin yn bennaf â'r pleidiau gwleidyddol a'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Mr Mike Steele: deunydd ychwanegol o ddiddordeb gwleidyddol, 1980au hwyr – 2007, a gasglwyd gan y rhoddwr fel gohebydd lobi'r Gwasanaeth Newyddion Cymunedol yn Nhy'r Cyffredin.
- Dr Denis Balsom: grŵp o bapurau arolygon barn, deunydd etholiadol a phleidleisiau ar ddatganoli, yn dyddio o'r 1970au i'r 1990au (Papurau Etholiadau Cymreig).
- Dr Russell Deacon: crynoddisg o gyfweliad diweddar sylweddol gyda Mrs Jennifer Longford (g. 1929), merch Frances Stevenson.
- Miss Joan Cooper, Caerdydd: papurau ychwanegol Dr Roderic Bowen (1913 – 2001), llawer o ddiddordeb gwleidyddol.
- Mrs Ann Williams: papurau ychwanegol y diweddar Athro Phil Williams (1939 – 2003), yn bennaf yn ymwneud â Phlaid Cymr

Ffion Hague, *The Pain and the Privilege: the Women in Lloyd George's Life* (Gwasg Harper, 2008)

Ceir o fewn y gyfrol anferthol hon grynodeb manwl a hudol o berthynas Lloyd George a'r merched niferus a chwaraeodd ran yn ei fywyd hir. Nid yn unig stori ei wraig ddioddefgar y Fonesig Margaret a'i feistres Frances Stevenson a gyflwynir yma, ond hefyd hanes ei fam-gu (neu nain) Rebecca Samuel, ei fam Betsy Lloyd, ei unig chwaer Mary Ellen Davies a'i ferched Mair Eluned (a fu farw'n gynamserol ym 1907), Olwen Elizabeth a Megan Arfon.

Prif thema'r gyfrol yw treialon priodas hir Lloyd George a'r Fonesig Margaret a'i berthynas glos dros ddeng mlynedd ar hugain â'i ysgrifenyddes breifat Frances Stevenson. Ymhlith y gwragedd eraill sy'n derbyn sylw yma mae Kitty Edwards a Mrs Tim Davies ynghyd â nifer fawr o wragedd llai adnabyddus a fu'n rhan o'i fywyd lliwgar. Gwnaeth Ffion Hague ddefnydd helaeth o archifau cyfoethog Lloyd George yn LlGC. Trawiadol hefyd yw ei meistrolaeth lwyr o'r cefndir gwleidyddol a hanesyddol cyffredinol.

Papurau Gareth Vaughan Jones

Cyflwynodd Dr Siriol Colley, Nottingham, i ofal y Llyfrgell grŵp sylweddol o bapurau ei hewythr Gareth Vaughan Jones (1905 – 35), yr ymchwilydd, newyddiadurwr ac awdur enwog a laddwyd gan 'ladron' Tsieineaidd ym Mongolia Mewnol ym mis Awst 1935. Yn eu plith ceir nifer fawr o lythyrau, cardiau post a negeseuon, 1925 – 35, a anfonodd Gareth at ei rieni a'i deulu tra'n teithio i wledydd pell. Ceir hefyd ddyddiaduron poced, ffotograffau, adroddiadau a memoranda a luniodd ar gais David Lloyd George (gŵr y bu'n cyflogi Gareth fel ymchwilydd iddo am gyfnod), ynghyd â drafftiau a chopïau o erthyglau. Ceir hefyd nifer fawr o doriadau papur newydd o erthyglau a luniwyd gan Gareth Jones. Mae'r archif yn gymar gwych i'r papurau a gyflwynwyd i'r Llyfrgell gan chwaer Gareth y diweddar Miss Gwyneth Vaughan Jones, Y Barri, ym 1987. Mae Dr Colley wedi addo papurau pellach yn ymdrin â'i hewythr yn y dyfodol agos.

Cylchlythyron AWG

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf Cylchlythyr AWG yn ystod gaeaf 1985. Ers hynny ymddangosodd trideg-naw o rifynnau, ac ers rhifyn 15 (Gwanwyn 1993) ymlaen, cyhoeddwyd y testun yn gyfangwbl ddwyieithog. Erbyn hyn digidwyd cynnwys pob rhifyn, a gellir edrych arnynt ar dudalennau we LlGC yn yr adran ar yr Archif Wleidyddol Gymreig. Gellir hefyd argraffu copïau personol ohonynt o'r wefan.

Printed on paper containing a minimum of 75% post-consumer waste. petergill.com 171780808